

Cofnodion cyfarfod 5/3/2020

Presennol: Y Maer Eifion Roberts (Maer), Rhys Evans (Dirprwy Faer), Sue Davies, Dilys Evans, Sharon Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Mabon Rhys, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Cynghorydd Dilwyn Morgan (Gwynedd), Lis Puw (Clerc).

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer a ddiolchodd i John Caradog Williams am dynnu'r hen arwydd o'r Domen ac am osod y baneri ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi. Dywedodd ei fod wedi derbyn neges oddi wrth Gyngor Ysgol Godre'r Berwyn yn diolch am gael arsylwi ar waith Cyngor Tref Y Bala.
2. **Ymddiheuriadau:** Dim.
3. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiadau buddiant:
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Chwefror 6ed 2020.
5. **Materion y Clerc:**
 - i. Yn dilyn cyfarwyddwyd Un Llais Cymru, uwchraddiwyd y Gofrestr Buddiannau Cynghorwyr.
 - ii. Eitem 11.ii Ciosg y Stryd Fawr – Derbyniwyd gwybodaeth y gellid prynu'r ciosg am £1 at ddibenion cadw di-ffib yn unig. Cynigiodd John Caradog Williams fod y Cyngor yn prynu'r ciosg ar gyfer gosod di-ffib ynddo. Eiliwyd gan Alun Price.
 - iii. Eitem 14 Mynedfa'r syrjeri – derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Reolwr Ystâd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr y byddant yn archwilio'r safle.
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd, a ddywedodd y bydd archwiliad o ddiogelwch wrth Ysgol Godre'r Berwyn ac ail asesiad o'r ffyrdd yn digwydd yn fuan iawn, gyda'r bwriad o greu llwybrau diogel i ddisgyblion gyrraedd yr ysgol. Diolchodd i'r Cyngor Tref am y llythyr a anfonwyd yn amlinellu'r problemau ac yn cynnig syniadau ar gyfer gwelliant yn y sefyllfa. Roedd yn falch o gyhoeddi fod gwobr yr uwch Sirif Crime Beat Gwynedd am ardd gymunedol wedi ei ennill gan y grŵp o bobl ifanc a oedd yn cyfarfod yr haf diwethaf gyda'r Swyddog Ieuencid, Alaw Paul. Roedd y grŵp hwn hefyd wedi derbyn cymorth ariannol gan Y Maer. Mynegodd Dilwyn Morgan ei siom fod Trefnwyr Bash Mawr Y Bala wedi canslo'r digwyddiad eleni.
7. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry; bydd oediad yn y gwaith ar arglawdd Llyn Tegid oherwydd yr angen am fwy o astudiaeth amgylcheddol ar gyfer y cais cynllunio. Diolchwyd i swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru am eu gwaith yn diogelu'r dref a'r dyffryn rhag llifogydd mis Chwefror.

8. **Is-bwyllgorau:** Adroddodd cynrychiolwyr y Cyngor ar Bwyllgor Cymdeithas Chwaraeon Penllyn fod archwiliad diogelwch wedi ei wneud ar y Pafiliwn ac y bydd angen archwiliad pellach mewn deng mlynedd.

9. **Materion Cyllunio:** Cymeradwywyd cais NP5/53/ADL41T am ganiatâd i ddangos hysbyseb ar Fanc HSBC, Stryd Fawr.

Cymeradwywyd Caniatâd Adeilad Rhestredig i osod cyfarpar Wi-Fi ar edrychiad blaen adeilad Y Cwrt, 62 Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7AB

10. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cytunwyd i'r taliadau: Aelodaeth Un Llais Cymru (£345), gosod hysbysebion tendrau yn Y Cyfnod (£70) a chyflog y Clerc.
- iii. Rhoddwyd ystyriaeth i'r tendrau a ddaeth i law a chytunwyd i roi'r gwaith am 3 mlynedd fel a ganlyn:
 - (a) gwaith cynnal a chadw'r Domen – Gwilym Prys Edwards
 - (b) glanhau llochesi bws – Chris Ellis
- iv. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau a ddaeth i law am gefnogaeth ariannol a chytunwyd fel a ganlyn:

Y Plase - £200
Cymdeithas Chwaraeon ac Adloniant Penllyn - £1000
Teulu'r Berwyn - £500
Cymdeithas Genweirio (grŵp clymu plu'r ieuencid) - £300
Eisteddfod Cylch Penllyn - £200
Llên y Llannau - £50
CFFI Meirionnydd - £500
Theatr Bara Caws - £150
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (Dinbych) - £100
Clwb Hoci'r Bala - £200
Clwb Badminton Y Bala - £150

11. Gohebiaeth:

- i. **Gwynedd:** Nodwyd derbyn cyngor i drigolion a busnesau parthed Brexit.
Polisi gosod tai yng Ngwynedd : nodwyd derbyn gwybodaeth am newidiadau
Meysydd Parcio: derbyniwyd cadarnhad y bydd yr ardoll o'r meysydd parcio'n dod i rym o Ebrill 1af; bydd yr incwm o gymorth i gadw'r toiledau cyhoeddus ar agor.
- ii. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd y Rhaglen hyfforddiant.
- iii. **Bash Mawr Y Bala(Triathlon):** gyda siom derbyniwyd gwybodaeth am ganslo achlysur 2020.

- iv. Derbyniwyd cais i gyfrannu tuag at Apêl i gynnal Eisteddfod Powys yn Y Bala yn 2021. Roedd y Cyngor wedi rhagweld hyn ac wedi cynnwys £2000 yn y gyllideb eleni ar gyfer apêl o'r math hwn. Cytunwyd i dalu'r swm allan o Gyllideb 2019-20 ac i roi ystyriaeth bellach i'r mater yn y flwyddyn ariannol newydd.
- v. Darllenwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd a ddywedodd fod y pafin anwastad o flaen Y Cyfnod wedi peri iddi hi a'i phlentyn ddisgyn. Dywedodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan y byddai'n gofyn i'r swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd ymweld ar frys.

12. Partneriaeth Penllyn: Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr fod y gwaith o adnewyddu'r llawr uchaf wedi cychwyn ac y bydd gofod ar gael ar rent maes o law. Dywedodd y Clerc iddi gludo rhai eitemau (megis map 1:500 o'r dref a Chofnodion) o Ganolfan Henblas i'r Archifdy yn Nolgellau. Roedd rhai cwpanau arian ar y llawr uchaf hefyd a chytunwyd i drosglwyddo Cwpan Hollins i'r Gymdeithas Genweirio a dau i Ysgol Godre'r Berwyn. Mae'r trefniadau gyda Phartneriaeth Penllyn ynglŷn a chreu Canolfan Deulu yn adeilad yr hen Ysgol Beuno Sant yn parhau.

13. Asedau'r Cyngor: Derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr; dywedodd fod cangen wedi torri ar Y Domen a chytunwyd i ofyn i G P Edwards ei chlirio. Dywedodd fod clip i ddal baner wedi dod rhywfaint yn rhydd o un o lampau'r Stryd Fawr. Cytunwyd i roi mater y baneri hyn ar Agenda'r flwyddyn nesaf.

14. Materion lleol y Cyngorwyr Tref: Adroddwyd fod hen geir yn y Parc Menter a llanast ym mhen draw'r parc Menter. Dywedodd Cyngorydd Dilwyn Morgan ei fod wedi dwyn y mater i sylw Swyddogion Cyngor Gwynedd a fydd yn ymateb yn fuan i wella'r ardal hon o'r dref.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 2/4/20 am 7.00pm yn Nghanolfan Henblas

Amser gorffen: 8.45pm